

BUDDSODDI MEWN DYFODOL MWY DISGLAIR AR GYFER GOGLEDD CYMRU



**CREU AMGYLCHEDD
ADDAS AR GYFER TWF**
Meithrin economi ranbarthol
gogledd Cymru

**BUDDSODDI MEWN
TWF BUSNESAU**
Gosod y sylfeini ar gyfer ehangu

UWCHSGILIO GOGLEDD CYMRU
Hwb i dwf a chynhyrchiant gogledd
Cymru

**GWIREDDU UCHELGEISIAU
YFORY, HEDDIW**
Arloesedd wrth wraidd economi
gogledd Cymru

MANTEISIO AR EIN CRYFDERAU
Manteisio ar asedau gogledd Cymru i
hybu twf economaidd




GOGLEDD CYMRU AC EWROP
2007 – 2013

Cynhyrchwyd ar ran Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru gan Dim Ewropeaidd Arbenigol Gogledd Cymru 2010 - 2015



CYLLID STRWYTHUROL EWROPEAIDD YN HELPU **GOGLEDD CYMRU** I ADEILADU DYFODOL MWY DISGLAIR.

NOD **BWRDD ECONOMAIDD
GOGLEDD CYMRU** YW CREU
RHANBARTH HYDERUS GYDAG
ECONOMI AMRYVWIOL, GWERTH
UCHEL, SY’N DARPARU
CYFLEOEDD CYFLOGAETH
GYNALIADWY, O
ANSAWDD DA,
I’W BOBL.



Saith mlynedd o newid aruthrol yng ngogledd Cymru



Ers 2007, mae dros £279m o fuddsoddiad, gan gynnwys £154m o Gronfeydd Strwythurol Ewrop, wedi helpu cryfhau economi gogledd Cymru, ac wedi gosod y sylfeini ar gyfer twf cynaliadwy a galluogi pobl, busnesau a chymunedau'r rhanbarth i symud tuag at gyflawni eu potensial economaidd llawn.

Mae'r Cynghorydd Dilwyn Roberts, Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn bwrw golwg yn ôl ar y cyflawniadau ledled gogledd Cymru dros y 7 mlynedd diwethaf, a sut mae buddsoddiad gan Gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd wedi cyfrannu at uchelgais y Bwrdd o ran meithrin economi'r rhanbarth.

“Mae gennym ni bob rheswm i edrych ymlaen, yn optimistaidd, at obeithion gwirioneddol ar gyfer economi gogledd Cymru dros y blynnyddoedd nesaf.

“Mae prosiectau a gynorthwyir gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop wedi helpu mwy na 3,900 o fusnesau i dyfu, wedi cynorthwyo dros 2,100 o fusnesau newydd, ac wedi arwain at greu dros 6,000 o swyddi ledled gogledd Cymru. Mae'r buddsoddiad wedi galluogi busnesau'r rhanbarth i fod yn fwy cystadleuol ac i ddod o hyd i gyfleoedd i ddatblygu, yn ogystal â mabwysiadu prosesau ac arferion newydd a mwy effeithlon.

“Mae gogledd Cymru eisoes yn gartref i rai o brif gwmnïau rhyngwladol y diwydiant. Mae Airbus, Toyota a ConvaTec, yn ddetholiad bach o'r cwmnïau mawr sydd wedi dewis buddsoddi yn y rhanbarth a, gyda datblygiadau mawr newydd, fel Wylfa Newydd, y carchar newydd gwerth £250 miliwn yn Wrecsam, a datblygiadau parhaus yn y tair parth menter yng ngogledd Cymru, bydd amrywiaeth o gyfleoedd i fusnesau a phobl gogledd Cymru fanteisio arnynt.

“Hefyd, ni oedd un o'r rhanbarthau cyntaf yng Nghymru i dderbyn buddsoddiad cyhoeddus sylweddol mewn cyflwyno band eang cyflym iawn. Rydym yn adeiladu rhwydwaith ddigidol sy'n gallu gystadlu gydag unrhyw le yn y byd, gyda chyfleusterau fel OpTIC Glyndŵr, PONTIO ym Mangor, a Pharc Gwyddoniaeth Menai yn yr arfaeth ar gyfer Ynys Môn, mae amgylchedd busnes heb ei ail yn cael ei sefydlu.

“Nid yw'n gyfrinach fawr fod gogledd Cymru yn gyfoethog o ran tirwedd, diwylliant, treftadaeth ac iaith, ac rydym ni eisoes yn gweld canlyniadau cadarnhaol o'r buddsoddiad Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn ein diwydiant twristiaeth awyr agored a threftadaeth ddiwylliannol. Mae dros 320,000 o bobl wedi ymweld â'r safleoedd a gynorthwyir, gan gyfrannu at ein diwydiant twristiaeth presennol, sy'n cynhyrchu £1.8 biliwn ar gyfer economi gogledd Cymru bob blwyddyn.

“Cafwyd buddsoddiad yn ein pobl hefyd a, thrwy hyfforddi a datblygu, rydym yn symud tuag at y gweithlu medrus sydd ei angen arnom. Bydd cael gweithlu medrus, hyblyg ac ymatebol, nid yn unig yn cynyddu gwerth ein busnesau presennol, ond bydd hefyd yn gwneud ein rhanbarth yn fwy deniadol i fuddsoddwyr.

“Mae'n amlwg fod buddsoddiad gan Ewrop wedi helpu Gogledd Cymru i baratoi ac adeiladu ar gyfer dyfodol ffyniannus, a gyda swyddi a chyfleoedd newydd ar y gorwel, allwn edrych tua'r dyfodol. Drwy roi'r hyder o ragolygon gyrfa dda i'n bobl ifanc, allwn helpu i'w cadw yn y rhanbarth a thrwy hynny diogelu'r iaith a diwylliant Cymraeg.

“Mae'r llyfryn hwn yn bwrw golwg yn ôl ar rai enghreifftiau o'r ffyrdd y mae gogledd Cymru wedi elwa ar gyllid Ewropeaidd yn ystod y cyfnod 2007 - 2014.”

Rhwng 2007 a 2014, derbyniodd pedair sir yng ngogledd Cymru (Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd) y lefel uchaf o gymorth Ewropeaidd trwy Raglen Cydgyfeiriant Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gwerth £1.8 biliwn. Derbyniodd Sir y Fflint a Wrecsam gymorth o'r Raglen Cystadleurwydd Dwyrain Cymru, gwerth £115 miliwn.

AMGYLCHEDD BUSNES HEB EI AIL

Mae tri parth menter gogledd Cymru, yng Nglannau Dyfrdwy, Ynys Môn ac Eryri, yn mynd o nerth i nerth, yn grymuso twf busnesau newydd i hybu'r economi ledled gogledd Cymru.

I wneud yn siŵr bod pob rhan o'r rhanbarth yn elwa, mae buddsoddiadau ledled gogledd Cymru wedi creu lle i fusnesau bach a mawr sefydlu, ehangu a mateisio ar gyfleoedd newydd.

Mae datblygiadau'n cynnwys aildatblygu gwesty hanesyddol Bee and Station yn Sir Ddinbych, i fod yn swyddfeydd ansawdd uchel a chanolfan fusnes ar gyfer mentrau newydd yn ardal wledig Pen Llŷn.

Enghraifft arall oedd trawsffurfio tir ac eiddo datblygedig yn unedau busnes modern yn Llangefni. Darparodd y prosiect gwerth £1.8 miliwn 7 uned busnes o ansawdd uchel, i fodloni anghenion busnesau modern.

Ymhlith y rheiny a elwodd ar yr unedau newydd, mae dau gwmni – Always Aim High a TDL Events Services – wedi sefydlu drws nesaf i'w gilydd i greu eu 'both digwyddiadau' eu hunain a gwneud y mwyaf o weithio gyda'i gilydd. Dywedodd sefydlydd a Rheolwr Gyfarwyddwr TDL Event Services, Tom Last, "Mae ein cwmni'n mynd o nerth i nerth, ac mae 2015 yn mynd i fod yn flwyddyn brysur iawn. Bydd yr unedau newydd hyn yn darparu lleoliad ardderchog i ni barhau i dyfu, a bydd yn ganolfan wych i gydlyn a chynllunio'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r digwyddiadau chwaraeon cyffrous niferus y byddwn yn rhan ohonynt yn y blynyddoedd nesaf."



Unedau busnes safon uchel Llangefni

CREU LLEOEDD BYWIOG

Cafodd £45 miliwn ei fuddsoddi mewn canol trefi a dinasoedd ledled gogledd Cymru i ddenu buddsoddiad preifat, swyddi ac ymwelwyr i'r rhanbarth.

O Wrecsam i Gaernarfon, ac o'r Fflint i Gaergybi a Bae Colwyn, mae adeiladau segur wedi cael eu hadfywio ac mae gwelliannau mawr wedi bod i ganol trefi, er budd y rheiny sy'n byw a gweithio ynddynt ac ymweld â nhw.

Mae'r Rhyl yn un dref sydd wedi elwa'n sylweddol o ganlyniad i brosiect gwerth £9 miliwn sydd wedi helpu'r dref i ail-ddatgan ei statws fel cyrchfan boblogaidd i dwristiaid. Fel rhan o'r prosiect, adeiladwyd Pont y Ddraig, sef pont i gerddwyr a beicwyr ar draws harbwr y Rhyl, i ddenu ymwelwyr newydd trwy gysylltu'r dref â Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybr Beicio Cenedlaethol.



Pont y Ddraig, Rhyl

BUDDSODDIAD YN YSGOGI CANLYNIADAU

Mae aildatblygiad gwerth £4.4 miliwn o ganol tref Blaenau Ffestiniog wedi creu lleoliad siopa bywiog ac wedi adfywio'r dref fel cyrchfan i ymwelwyr.

Ochr yn ochr â buddsoddiad sylweddol gan y sectorau cyhoeddus a phreifat i wneud y mwyaf o ddiwylliant a thirwedd unigryw'r dref ar gyfer gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth treftadaeth, mae'r prosiect wedi arwain at sefydlu nifer o fusnesau newydd yng nghanol y dref, creu swyddi a hyder bod Blaenau yn lle gwyh i fyw, gweithio ac ymweld.

Mae un o gwmnïau prydlesu tafarndai mwyaf blaenllaw'r DU, sef Punch Taverns, wedi buddsoddi mewn adnewyddu a phrydlesu dwy dafarn yn y dref.


Esboniodd Andrew Lewis, perchennog Gwesty Tŷ Gorsaf ym Mlaenau Ffestiniog: "Pan ddeuthum i weld Blaenau Ffestiniog, roeddwn yn gallu gweld y buddsoddiad oedd yn digwydd yn y dref, ac roedd yr ymchwil ywchwil a wnes i ar yr ardal yn galonogol iawn. Heb y gwaith adfywio, rwy'n amheus gen i y byddem wedi buddsoddi yn y dref. Gydag atyniadau twristiaid, fel Rheilffordd Ffestiniog, Llechwedd a Llwybrau beicio disgynnol o'r radd flaenaf, roedd llawer o bethau yma all helpu i ddenu twristiaid a helpu rhoi hwb i'r gwesty a'r economi lleol."



CONGLFAEN ADFYWIO

Mae arian adfywio a'i lleoliad yng nghanol Gogledd Cymru yn gwrthio economi Sir Conwy ymlaen.

Un prosiect arloesol sydd eisoes wedi rhoi hwb yr ardal yw Porth Eirias - prosiect gwerth sawl miliwm o bunnoedd ar lannau Bae Colwyn, sy'n cyfuno amddiffyn yr arfordir ac adfywio fel rhan o welliannau i'r promenâd. Mae Porth Eirias yn gartref i fwy ger y môr y cogydd enwog Bryn Williams, a agorodd yn ystod haf 2015.



Mae darpariaeth £6.5 miliwn Canolfan Digwyddiadau Parc Eirias, Bae Golwyn, yn leoliad cyfoes ar gyfer ddigwyddiadau cymunedol, diwylliannol a chwaraeon.

Ers ei agor diwedd 2011, mae'r ganolfan wedi croesawu'r fflam Olympaidd a Pharalympaidd, wedi cynnal cyngherddau'r awyr agored gan Pixie Lott, Olly Murs, Jessie J, Syr Tom Jones a Syr Elton John, yn ogystal â gemau rygbi Pencampwriaeth y Chwe Gwlad dan ugeiniau a gemau rhyngwladol pobl hyn.

Dywedodd Teresa Canel, Cadeirydd Siambr Fasnach Bae Colwyn: "Mae'r buddsoddiad ym Mharc Eirias wedi helpu Bae Colwyn yn wirioneddol. Mae wedi helpu meithrin hyder busnesau a chreu swyddi newydd, mae'r dre ar ei fyny ac mae Bae Colwyn ar y map unwaith eto fel cyrchfan i ymwelwyr."

CYNHWYSION LLWYDDIANT

Mae miliynau o bunnoedd o gymorth wedi cael ei ddarparu yng ngogledd Cymru i ysgogi a chynorthwyo twf, a helpu busnesau bach a chanolog, yn arbennig, i gynyddu eu cystadleugarwch.

Fe wnaeth cynlluniau fel Cronfa Fuddsoddi Leol Gogledd-Orllewin Cymru roi ychydig bach ychwanegol o gymorth i ddarparu fusnesau, yr oedd ei angen arnynt i ddatblygu – wrth wneud hynny, cynorthwywyd 448 o fusnesau a helpwyd i greu dros 750 o swyddi.

Un enghraifft o'r ffordd y mae'r Gronfa Fuddsoddi Leol wedi gwneud gwahaniaeth mawr yw Bwyty Dylan's yn Ynys Môn, a agorwyd ym mis Mehefin 2012.

Esboniodd David Evans, Cyfarwyddwr Bwyty Dylan's: "Fe wnaeth y cymorth ariannol ein helpu ni'n sylweddol wrth gynllunio, a chawsom lawer iawn o gymorth yn lleol i lunio ein cais. Fe wnaeth y £35,000 a ddyfarnwyd i ni ein cynorthwyo i osod cegin o ansawdd uchel yn ein bwyty yn Ynys Môn – hebddi, efallai na fyddem wedi agor."

Crëwyd 33 o swyddi newydd yn y bwyty, ac mae llwyddiant y cwmni wedi arwain at agor chwaer fwyty yng Nghricieth eleni.



GWEITHIO GYDA'N GILYDD AR GYFER TWF BUSNESAU

Fe wnaeth y prosiect Parciau Busnes Strategol, gwerth £1 miliwn, weithio yn ardaloedd cyflogaeth allweddol gogledd-ddwyrain Cymru – Ystad Ddiwydiannol Wrecsam a Pharc Busnes Glannau Dyfrdwy – i helpu mentrau yn y safleoedd i ddod i adnabod ei gilydd a sefydlu perthnasau gweithio. Helpodd y prosiect dros 500 o fusnesau a chwmnïau presennol a oedd yn cyflogi 18,000 o bobl.

Rhwng 2009 a 2015, sefydlodd 14 o fusnesau newydd ar y safleoedd, gan greu 283 o swyddi newydd, a chynhyrchu dros £11.6 miliwn o werth ychwanegol gros bob blwyddyn ar gyfer yr economi ranbarthol.

Denwyd buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat yn y safleoedd. Er enghraifft, agorodd Westbridge Furniture Designs drydydd cyfleuster gweithgynhyrchu ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, i wasanaethu contract pum mlynedd newydd gydag Ikea, gan greu cannoedd o swyddi newydd a chynyddu cynhyrchiant o 100 eitem yr wythnos i fwy na 2,000. Mae'r cwmni bellach yn cyflogi cyfanswm o 960 o staff yn ei ffatrioedd yng Nglannau Dyfrdwy a Threffynnon.

Fe wnaeth ConvaTec, sy'n cyflogi 600 o bobl i wneud rhwymynnau clwyfau yn Ystad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy, fuddsoddi £3.7miliwn yn ei ffatri, gan greu 67 o swyddi a diogelu 16 swydd arall.

GWYDDONIAETH EIRA A HALEN

Mae prifysgolion a cholegau gogledd Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod busnesau yn y rhanbarth yn gwneud y mwyaf o'r sgiliau a'r wybodaeth y gallant eu cynnig i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd, i'w helpu i gystadlu ar y llwyfan byd-eang.

Datblygwyd deunydd newydd i gynorthwyo goroesiad mewn amodau eithafol, mewn cydweithrediad rhwng Blizzard Protection Systems Limited a phrosiect Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth, dan arweiniad Prifysgol Bangor. Mae'r cwmni wedi tyfu o ddiwydiant cartref i fod yn arweinydd byd yn ei faes, a chynyddu trosiant a chyflogaeth yn ei bencadlys ym Methesda.

Gyda chwsmeriaid yn amrywio o fwyta i â sêr Michelin i M&S, mae Dŵr Mwg Derw Halen Môn yn ffynnu. Mae Heston Blumenthal wrth ei fodd ag o! Mae'r dŵr unigryw hwn yn cael ei ychwanegu at gawl a chaserol i roi blas cyfoethog, myglyd, a gweithiodd ymchwilwyr prosiect WISE 2 gyda'r cwmni i brofi sefydlogrwydd y cynnyrch newydd.

Mae ymchwilwyr o WISE 2 hefyd wedi gweithio gyda'r Canolfan Cadw Gwenyn Cenedlaethol Cymru yng Nghonwy, gan eu helpu i ddiffinio eu cynnig ac adnabod cynhyrchion a gwasanaethau newydd, dod o hyd i ffyrdd o wella profiad ymwelwyr a gofod ar gyfer gweithgareddau'r Canolfan yn ogystal â helpu i wella refferniw i gefnogi gwaith y cwmni.

Dyma WISE 2 hefyd yn agor drysau i gwmni Peirianeg Sifil a Ymgynghoriaeth Cynllunio, Waterco yn Rhuthun i gael mynediad i ddata gofodol pwerus ac wedi darparu arbenigedd gyda GIS gan gyfrannu at nod y cwmni o gyflenwi lliniaru perygl llifogydd trwy weithredu dulliau naturiol. Mae uchelgais Waterco i fod yn "arbenigwr cenedlaethol yn dŵr, draeniad a pherygl llifogydd" bellach yn cael ei wireddu.


Cynorthwyodd prosiect BEACON cwmni arall o Sir Dinbych - Clifford Jones Timber Group (CJ Timber) - i ddod o hyd i gynnyrch arloesol, gwydn ac yn gyfeillgar i'r amgylchedd i amddiffyn coed rhag pydru, gan arwain i'r cwmni buddsoddi mewn offer i ddefnyddio'r dechnoleg ar eu cynhyrchion gan arwain at gyfleoedd newydd yn y farchnad.

TREFNWCH EICH GWYLIAU YN GYFLYM IAWN

Mae busnesau ledled gogledd Cymru yn gallu gweithio'n graffach, yn gyflymach ac yn well, yn dilyn buddsoddiad cyhoeddus mawr mewn darparu band eang cyflym iawn ar draws y rhanbarth. Mae prosiect Cyflymu Cymru yn helpu i drawsffurfio'r ffordd y mae busnesau ledled gogledd Cymru yn gweithredu, a'u galluogi nhw i gyrchu marchnadoedd newydd, gweithio'n fwy effeithlon a rhoi hwb i'w helw.

Mae cael band eang cyflym iawn wedi helpu i wneud asiantaeth osod ar-lein ar gyfer llety hunanarlwyo o'r radd flaenaf ledled gogledd Cymru, yn fwy effeithlon, cystadleuol a phroffidiol. Sefydlwyd Bythynnod Gwyliau Dioni yn 2010. Mae'n cyflogi 4 aelod o staff, a gall pob un ohonynt weithio o bell gan ddefnyddio meddalwedd cydweithrediadol a chyfrifiadura cwmwl.

Mae Dioni wedi achub ar bŵer cyfryngau cymdeithasol ac wedi creu fideos ar gyfer pob llety yn y portffolio ar y wefan. Mae hefyd wedi gallu manteisio trwy symleiddio eu systemau busnes ar y cwmwl; mae'r gweithwyr yn cadw mewn cysylltiad trwy ddefnyddio Skype ac yn gallu gwneud mwy o ddefnydd o rannu sgrin a rheoli bwrdd gwaith o bell.



ENTREPRENEURIAID Y DYFODOL, HEDDIW



Mae bron £17 miliwn wedi cael ei fuddsoddi i roi sgiliau i bobl ifanc ledled gogledd-orllewin Cymru, i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gynhyrchir mewn sectorau fel ynni, uwch-weithgynhyrchu, y cyfryngau, technoleg ddigidol, a threftadaeth a thwristiaeth awyr agored, yn ystod y degawd nesaf.



Mae 'Potensial' yn brosiect gwerth £13.6 miliwn, a wnaeth gymell a chynorthwyo dros 4,300 o bobl ifanc 11-19 oed, nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, i barhau mewn addysg a gwella eu sgiliau.

Fe wnaeth menter arall, sef Llwyddo'n Lleol, helpu dros 11,000 o bobl ifanc 11-19 oed i ddatblygu rhagolwg entrepreneuriaidd a bod yn llwyddiannus yn eu cymunedau. Hefyd, darparodd y cynllun fwsariaethau i fwy nag 800 o ddarpar entrepreneuriaid i brynu offer hanfodol i roi cynnig ar eu syniadau busnes.

Roedd datrys llofruddiaeth arswydus trwy wyddoniaeth ffrengig, adeiladu robot, creu tyrbin gwynt a datblygu pont grog 60 troedfedd ymhlith rhai o'r heriau niferus a oedd ar gael i fyfyrwyr mewn ysgolion uwchradd yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Roedd y diwrnodau heriol hyn, trwy Llwyddo'n Lleol, yn amlygu pwysigrwydd pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), ac roedd y sesiynau ymarferol yn rhoi blas i fyfyrwyr i fyd gwaith ac amrywiaeth y gyrfaedd sydd ar gael yn lleol.

SGILIAU AR GYFER Y DYFODOL

Mae buddsoddiad mewn hyfforddi a dysgu dros y blynyddoedd diwethaf wedi helpu mwy na 35,000 o bobl yng ngogledd Cymru i ennill cymwysterau a sgiliau. Nid yn unig y mae cael gweithlu medrus, hyblyg ac ymatebol wedi cynyddu gwerth busnesau trwy gryfhau cynhyrchiant, mae hefyd yn sicrhau bod gogledd Cymru yn ddeniadol i fuddsoddwyr.

Derbyniodd cwmnïau yng ngogledd-ddwyrain Cymru hwb gwerth £3.5 miliwn i ddatblygu sgiliau eu gweithwyr a gwella perfformiad eu busnes. Darparodd y rhaglen Sgiliau ar gyfer y Gweithlu, dan arweiniad Coleg Cambria, y sgiliau yr oedd eu hangen i lwyddo, i 2,800 o weithwyr, a oedd yn gweithio i 600 o gwmnïau.

Un sector sydd wedi elwa yw diwydiant twristiaeth gogledd Cymru, sy'n cynhyrchu £31.8 biliwn ar gyfer economi gogledd Cymru bob blwyddyn ac sy'n

cynnal 80,000 o swyddi. Darparodd prosiect Y Dyfodol hyfforddiant mewn rheoli ar gyfer busnesau lletygargwch a thwristiaeth ledled y rhanbarth. Un busnes a wnaeth elwa oedd tafarn gastro, Tavern on The Bay, yn Ynys Môn.

Dywedodd Carol Peers, Rheolwr Adnoddau Dynol: "Nid yw'r bwyty'n ddim byd heb safon y rheoli sydd ei angen i arwain y tîm, ac mae prosiect Y Dyfodol wedi ein helpu ni i ennill sgiliau newydd a gwella cynhyrchiant.

"Mae'r hyfforddiant a dderbyniodd ein dau Reolwr Bwyty o fudd i'r gwasanaeth 5 seren rydym yn ymdrechu i'w gyrraedd."

www.cambria.ac.uk
www.gllm.ac.uk



SEFYDLU AR GYFER DYFODOL MWY DISGLAIR

Yn sgil dod â chynhyrchu ynni i ben yng ngorsaf bŵer yr Wylfa, a cham cyntaf datgomiynu safle niwclear Trawsfynydd bron wedi'i gwblhau, sefydlwyd prosiect Llunio'r Dyfodol i wella sgiliau a chymhwysedd y 1,200 o bobl y bydd yn debygol o effeithio arnynt.

Ar adeg o brinder byd-eang mewn arbenigedd technegol a pheirianneg, mae gogledd Cymru mewn safle perffaith, diolch i'w grynhoed unigryw o sgiliau y mae mawr alw amdanynt - caffaeliad gwerthfawr a all gynorthwyo twf cynaliadwy'r rhanbarth.

Lluniwyd etifeddiaeth bwysig yng ngogledd Cymru, diolch i ffocws y prosiect ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu. Anogwyd y gweithwyr i feddwl yn rhanbarthol a datblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol i greu gyrfaedd cynaliadwy, amrywiol yng ngogledd-orllewin Cymru.



CHWALU'R RHWYSTRAU

Cynorthwyodd prosiect £20 miliwn 'Taith i Waith' dros 4,768 o bobl gyda ystod o anafteision i mewn i hyfforddiant, addysg a gwaith. Nod y prosiect oedd lleihau anweithgaredd economaidd a gwella lefelau cyflogaeth ymhlith y grwpiau mwyaf difreintiedig ar draws Gogledd Orllewin Cymru.

SUT Y GWNAETH FFURFIO'R DYFODOL HELPU ADRIAN



Mae Adrian Williams yn Ddylunydd Mecanyddol sy'n gweithio fel contractwr yn Nhrawsfynydd, ac achubodd ar y cyfle i wella ei sgiliau presennol.

Dywedodd Adrian, sydd â'i fryd ar sefydlu ymgynghoriaeth dylunio mecanyddol, "Roedd y cyllid a oedd ar gael i mi, hyd yn oed fel contractwr, yn golygu y gallwn fynychu cyrsiau arbenigol na fyddwn wedi gallu eu hariannu fel arall". Gweithiodd Adrian tuag at gyflawni statws Arbenigwr meddalwedd SolidWorks. Mae 70 yn y DU - ac 8 yn unig yng Nghymru. Mae Adrian yn gobeithio mai fo fydd y nawfed.

ARLOESIEDD... MAE'N GELFYDDYD YN OGYSTAL Â GWYDDONIAETH!

Mae arloesedd a thechnolegau newydd yn hybu cystadleugarwch, swyddi a thwf cynaliadwy mewn rhanbarthau ledled y byd a, gyda chymuned fusnes fywiog, dwy brifysgol blaenllaw a sefydliadau addysg bellach deinamig, mae gogledd Cymru mewn lle da i osod y nod ar gyfer y dyfodol.

Gan ategu'r rhwydwaith o gyfleusterau sydd eisoes yn bodoli ar draws y rhanbarth, bydd datblygiad Pontio gwerth £47 miliwn Prifysgol Bangor yn uno'r celfyddydau a'r gwyddorau mewn ffordd unigryw, gan ddarparu mwy o ysgogiadau at arloesedd.

Yn ogystal ag amrywiaeth o gyfleusterau, gan gynnwys Hwb, sef cyfleuster arloesedd o'r radd flaenaf, bydd Pontio yn dod ag arbenigedd ymchwil, unigolion a busnesau at ei gilydd, i gydweithio a datblygu cynhyrchion a phrosesau newydd, a'u troi'n realiti masnachol.

www.pontio.co.uk



European Extremely Large Telescope (E-ELT)



TRACHYWIRDEB TRAWIADOL!

Mae gwyddonwyr o Arloesiadau Glyndŵr wedi bod yn gweithio'n agosach nag erioed o'r blaen gyda busnesau i ddatblygu technoleg flaenllaw, diolch i fuddsoddiad gan raglen Arbenigedd Academiaidd i Fusnesau (A4B).

Nod y rhaglen oedd hyrwyddo economi gwerth uchel a gwneud y mwyaf o effaith economaidd ar fusnesau trwy drosglwyddo gwybodaeth.

Esboniodd yr Athro Paul Rees, "O ganlyniad i gyllid oddi wrth Arbenigedd Academiaidd i Fusnesau, cyflawnom system mesureg, y cyntaf o'i math yn y byd, sy'n gosod gogledd Cymru ar flaen y gad i wneud cais i gynhyrchu hyd at 1,000 o ddrychau ar gyfer telesgop mwyaf y byd – sydd â'r potensial i greu 25 o swyddi ar gyfer diwydiant gweithgynhyrchu gogledd Cymru".

www.glyndwrinnovations.co.uk

DEFNYDDIO GRYM GWYCH Y CEFNFOROEDD

Mae cyfleoedd na fanteisiwyd arnynt yn faenorol i gynhyrchu ynni carbon isel yn y dyfroedd o gwmpas arfordir Cymru, bellach yn realiti diolch i ymchwil cydweithrediadol a gyflawnwyd gan ymchwilwyr o SEACAMS – canolfan newydd gwerth £24 miliwn Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor ym Mhorthaethwy, Ynys Môn – a phrosiect Cyfrifiadura Perfformiad Uchel i Gymru.

Gan ddefnyddio Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru i gyrchu'r rhwydwaith uwchgyfrifiadura genedlaethol, gall ymchwilwyr fodelu effaith amgylcheddol gosod dyfeisiau ynni adnewyddadwy morol o gwmpas arfordir Cymru.

Yn ôl Dr Simon Neill o'r Ysgol Gwyddorau Eigion, "Mae gan Gymru rai o'r adnoddau ynni llanw gorau yn y byd. Trwy helpu i ddatblygu'r lleoliadau hyn, rydym ni nawr yn denu datblygwyr i Gymru ac yn gwella sector ynni adnewyddadwy Cymru".

Mae'r sector ynni carbon isel yng Nghymru yn cyflogi 40,000 o bobl ac yn cyfrannu £3.2 biliwn i'r economi bob blwyddyn.

www.hpcwales.co.uk





GWNEUD SBLOETS!



Dau o asedau mwyaf rhyfeddol gogledd Cymru yw ei hamgylchedd eithriadol a'i diwylliant unigryw. Mae gwneud y mwyaf o'r asedau hyn yn gyfle gwych i ddathlu beth sydd mor arbennig am ogledd Cymru a hybu'r gwerth rydym yn ei ennill trwy un o'n diwydiannau mwyaf pwysig, sef twristiaeth.

Dros y blynyddoedd diwethaf, gyda help Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd, mae miliynau o bunnoedd wedi cael eu buddsoddi mewn gwneud yn siŵr bod gan ein harfordir isadeiledd o'r radd flaenaf - trwy Lwybr Arfordir Cymru - a chyfleusterau cyfatebol.

Ym Mhen Llŷn, agorwyd Plas Heli, sef academi hwylio newydd blaenllaw gwerth £9 miliwn, yn ddiweddar, ac mae eisoes yn cynnal digwyddiadau hwylio o'r radd flaenaf ac yn croesawu cannoedd o hwylywyr o bob cwr o'r byd, sydd o fudd economaidd ac yn cryfhau diwydiant morol a hwylio gogledd Cymru.

Yn Ynys Môn, ar hyd yr arfordir ysblennydd, mae 18 o safleoedd wedi derbyn buddsoddiad gan brosiect Amgylchedd yr Arfordir, gan gynnwys Pier Biwmares. Mae'r cwmni teithiau antur, Ribride, yn un o'r gweithredwyr sydd wedi elwa ar welliannau i'r Pier. Mae'r cwmni bellach yn gweithredu fflyd o gychod ac yn cyflogi mwy o staff, ac yn cyfrannu at gynydd yn nifer yr ymwelwyr a gwariant ymwelwyr uwch ar yr ynys.

Mae'r rheiny sy'n hoff iawn o chwaraeon dŵr yn heidio yn eu miloedd i Borth Eirias, sef datblygiad y glannau gwerth £3.7 miliwn ym Mae Colwyn, i fanteisio ar y cyfleusterau, y gweithgareddau a'r hyfforddiant achrededig sydd gan y ganolfan gyfeillgar i'w cynnig. Mae busnesau lleol yn nodi cynnydd mewn ymwelwyr o tu hwnt i'r ardal a chynnydd mewn incwm hyd at 20%!



Castell Dolwyddelan



CREU HANES!

Yn ogystal â'i harddwch naturiol, mae gan ogledd Cymru ddiwylliant a hanes cyfoethog ac unigryw. Mae twristiaeth treftadaeth yn cyfrannu dros £193 miliwn at economi Cymru yn flynyddol, ac mae bron £3 miliwn wedi cael ei fuddsoddi i wneud y mwyaf o beth sydd gan ogledd Cymru i'w gynnig.

Trwy brosiectau Tref Dinbych - Linc i'r Castell, Draphont Ddŵr Pontcysyllte a safle Treftadaeth y Byd, Ein Treftadaeth, Tywysogion Gwynedd a Mona Antiqua, mae hanes wedi dod yn fyw ar draws gogledd-orllewin Cymru trwy gyfleusterau a mynediad gwell at safleoedd hanesyddol, a dehongliad newydd, cyffrous yn gwneud y mwyaf o dechnoleg newydd. Ymhlith y datblygiadau a gynorthwywyd oedd ailddehongli Ffordd y Pererinion, 130 milltir o hyd, sy'n ganrifoedd oed, sy'n cysylltu Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon yr holl ffordd i Ynys Enlli!

Hyd yma, mae dros 200,000 o dwristiaid wedi ymweld â'r 58 o safleoedd hanesyddol bwysig, a gynorthwyir gan y prosiectau.

CYRRAEDD UCHELDERAU NEWYDD

Amcangyfrifir bod twristiaid sy'n ymweld â gogledd Cymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, yn cyfrannu £213 miliwn at economi'r rhanbarth bob blwyddyn.

Mae bron £13 miliwn wedi cael ei fuddsoddi i wella'r gweithgareddau awyr agored a gynigir yng ngogledd Cymru, gan fanteisio'n llawn ar dirwedd ac amgylchedd ysblennydd y rhanbarth - a hybu busnesau lleol a chyflogaeth ar yr un pryd.

Mae Canolfan Digwyddiadau Eirias, sydd wedi'i lleoli yn 50 erw ryfeddol Parc Eirias, ym Mae Colwyn, ac yn edrych dros y Bae, wedi denu dros 140,000 o ymwelwyr ers agor yn 2011, ac mae wedi cyflwyno dros £2.5 miliwn o fudd uniongyrchol i'r economi lleol trwy gynnal digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Daeth gogledd Cymru yn 'fecca' i feicwyr mynydd hefyd, yn sgil datblygu amrywiaeth o gyfleusterau rhyfeddol yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Canolfan Rhagoriaeth Beicio Conwy a Sir Ddinbych, ac estyniad i Ganolfan Beicio Mynydd Coed-y-Brenin yn ogystal â Chanolfan Beicio Lawr Allt ym Mlaenau Ffestiniog, a agorwyd fel rhan o brosiect Eryri, Un Antur Fawr. Mae dros 220,000 o ymwelwyr y flwyddyn bellach yn manteisio ar rai o'r gweithgareddau beicio ac awyr agored gorau sydd ar gael.



Porth Eirias, Bae Colwyn



Llwybr Beicio mynydd Antur Stiniog



north wales economic ambition board bwrdd uchelgaais economaidd gogledd cymru

Mae'r 10 mlynedd nesaf yn gyfnod allweddol i economi gogledd Cymru. Mae ganddi gyfle gwirioneddol i gynyddu cynhyrchiant a thwf economaidd, a chynhyrchu dros 40,000 o swyddi newydd.

Mae'r prif ysgogwyr economaidd yn y rhanbarth yn cynnwys prosiectau fel Wylfa Newydd, moderneiddio'r rheilffordd, datblygiad Carchar Gogledd Cymru yn Wrecsam, Morlyn Llanw, datblygiad UK Spaceport a mwy o fuddsoddiad ym mharthau menter Glannau Dyfrdwy, Ynys Môn ac Eryri. Mae'r rhain yn brosiectau trawsffurfiol sydd â photensial economaidd a chyflogaeth enfawr ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Bydd Bwrdd Uchelgaais Economaidd Gogledd Cymru yn adeiladu ar lwyddiant y prosiectau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod presennol gyda arian Ewrop a chefnogaeth Tîm Ewropeaidd Arbenigol Gogledd Cymru drwy ddarparu'r cyfrwng strategol i gyflwyno prosiectau trawsffurfiol, cydlynw a galluogi twf economaidd ac ymateb yn uniongyrchol i anghenion busnesau.

Bydd buddsoddiad gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop yn allweddol i gyflwyno ei strategaeth i greu twf busnes ledled gogledd Cymru.

Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd wedi penderfynu canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol i gynyddu cynhyrchiant, cystadleugarwch a thwf economi gogledd Cymru. Amlinellir y blaenoriaethau hyn isod:

- Cryfhau cadwyni cyflenwi yn y rhanbarth, yn arbennig o fewn sectorau gwerth uchel, fel uwch-weithgynhyrchu, a chadwyni cyflenwi sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a datblygiadau sy'n ymwneud ag ynni;
- Datblygu isadeiledd y rhanbarth i hwyluso a chynorthwyo buddsoddiad economaidd;
- Gwella ac uwchraddio cronfa sgiliau'r rhanbarth a hyrwyddo twf cyflogaeth;
- Hyrwyddo marchnata gogledd Cymru fel cyrchfan i fusnesau ac ymwelwyr, yn ogystal â sicrhau y rhoddir sylw i faterion cyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

Bydd canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn yn cynorthwyo i ddatblygu, cyflwyno a chynnal y prosiectau mawr sydd â'r potensial i drawsffurfio'r economi, gan sicrhau y gwneir y mwyaf o'u heffaith, a chyflwyno'r weledigaeth a amlinellir uchod.



Ei weledigaeth yw "sefydlu gogledd Cymru fel rhanbarth hyderus allblyg, sydd ag economi amrywiol, gwerth uchel, sy'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy o ansawdd da i'w phobl".



BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU Cyffredinol trwy @NorthWalesEAB
BUSNES A BUDDSODDI trwy @7NorthWales
SGILIAU A CHYFLOGAETH trwy @SkillsNWales

